# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Dechrau'n Deg Cefn-y-pant**

**Ystafelloedd Dechrau'n Deg**
**Ysgol Gynradd Cefn-y-pant**
**Heol yr Hen Bant**
**Trecelyn**
**NP11 5DE**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 8 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Dechrau'n Deg Cefn-y-pant yn cael ei weithredu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac mae wedi penodi dau Unigolyn Cyfrifol i oruchwylio'r gwasanaeth a Pherson â Gofal i reoli'r lleoliad o ddydd i ddydd. Cafodd ei gofrestru yn 2008 ac mae'n darparu gofal sesiynol ar gyfer hyd at 16 o blant. Gan ei fod yn rhan o raglen Dechrau'n Deg, mae'n darparu lleoedd gofal i blant am ddim mewn dalgylchoedd penodol ar gyfer plant rhwng dwy a thair blwydd oed. Gweithredir y gwasanaeth o adeilad dynodedig o fewn Canolfan Gofal Plant Dechrau'n Deg a leolir o fewn estyniad i Ysgol Gynradd Cefn-y-pant. Mae'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am i 11.30am a 12.15pm i 2.45pm. Mae'n wasanaeth a weithredir trwy'r iaith Saesneg yn bennaf, ond mae'n defnyddio rhywfaint o Gymraeg sylfaenol.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae llesiant y plant yn cael ei hyrwyddo yn y grŵp chwarae ac maent yn gallu ffurfio perthnasau cadarnhaol a chynnes â'r staff. Maent yn weithredol ac yn ymgysylltu â'u chwarae ac mae'r awyrgylch yn hapus ac yn ymlaciedig. Mae'r staff yn gymwysedig iawn ac yn brofiadol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod gyda'r grŵp am nifer o flynyddoedd. Mae'r practis yn cael ei arwain gan y plant ac maent yn deall anghenion unigol y plant. Mae'r brif ystafell chwarae yn ysgogol a chyfforddus ac mae amrediad da o adnoddau ac offer sy'n addas ar gyfer yr oedran. Mae'r gofod chwarae awyr agored wedi'i gynnal a'i gadw yn dda ar y cyfan ac mae'n ddiogel ac mae'n darparu gofod chwarae ychwanegol er y byddai'n elwa o archwiliad adnoddau.

**2. Gwelliannau**

- Mae'r grŵp wedi datblygu ei gardd eco a chegin fwd er mwyn ehangu chwarae'r plant i'r ardal awyr agored ac
- mae swyddog datblygu staff wedi'i chyflogi er mwyn cynorthwyo datblygiad proffesiynol y staff.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwnaethom rai argymhellion er mwyn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth ac mae'r rhain wedi'u manylu ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Canfuwyd gennym fod y plant yn hapus ac wedi setlo ac wedi datblygu perthynas gadarn gyda'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y feithrinfa ac maent yn brysur ac yn gallu chwarae gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau, sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u datblygiad.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gallu dewis pa weithgareddau y maent eisiau eu gwneud ac maent yn gallu dewis teganau ac offer o amrediad da o adnoddau. Roedd y plant yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth yr oeddent eisiau chwarae gydag ac roedd y staff yn dilyn arweiniad y plant ac roeddent yn sensitif i'w diddordebau. Gwelsom fod y plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar gyfer y grŵp cyfan, megis gwrando ar stori, ond roeddent yn gallu dewis peidio os oeddent yn dymuno. Clywsom y staff yn ymwneud â'r plant yn rheolaidd ynghylch penderfyniadau am eu chwarae ac roeddent yn eu gwahodd i ddewis caneuon ar adeg amser canu a gwnaeth y plant ddewis canu cân am yr enfys yn Gymraeg. Roedd y plant yn cael cynnig dewis o fwyd yn ystod amser byrbryd. Dywedodd y rhieni y buom yn siarad â hwy eu bod yn teimlo bod gan eu plant dewis dda o weithgareddau.

Roedd hawl y plant i fynegi eu hunain a gwneud dewisiadau yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn ddiogel, yn hapus ac yn ymlaciedig. Mae'r grŵp yn gweithredu proses ymgyfarwyddo sy'n rhoi amser i blant i ymgyfarwyddo yn y sesiynau ar eu cyflymder eu hunain. Mae'r system gweithiwr allweddol, lle mae pob aelod o staff yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer ffurfio perthynas agos gyda grŵp bychan o blant a'u rhieni, gan ymuno â grŵp staff cyson, yn galluogi'r plant i ddatblygu ymgysylltiadau cadarn. Gwnaeth un rhiant sylw bod *"y gweithwyr allweddol wedi gwneud argraff fawr arno."* a bod ei blentyn yn hapus yn y gwasanaeth. Roedd y plant yn symud trwy'r ardaloedd chwarae yn hyderus ac roeddent yn mynd at y staff yn hawdd os oeddent eisiau unrhyw beth. Gwelsom fod y plant yn derbyn cofleidiau, llawer o sylw ac roeddent yn derbyn gwenau, canmoliaeth a geiriau o anogaeth gan y staff. Roedd gan y plant eu bachau eu hunain er mwyn hongian eu cotiau a'u heiddo a'u gwaith arnynt. Roedd ffotograffau o'r plant yn cael eu harddangos a oedd yn helpu iddynt gael teimlad eu bod yn perthyn a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn gallu teimlo'n ddiogel, eu bod wedi ymgartrefu a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol. Roedd y plant yn cydweithredu'n dda â'r staff, er enghraifft, trwy ddilyn y gweithdrefnau golchi dwylo cywir ac roeddent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp megis canu a darllen storïau. Anogwyd y plant mewn modd tyner a medrus i gymryd eu tro a rhannu â'u ffrindiau. Roedd sticeri a "Seren y Dydd" yn cael eu rhoi fel gwobrau ac roeddent yn helpu i hyrwyddo'u hymdeimlad o hunan-barch. Roeddent yn dilyn enghraifft y staff wrth ddefnyddio moesau da ac roeddent yn mwynhau'r cyfleoedd i eistedd o amgylch y byrddau gyda'i gilydd i fwyta'u byrbrydau. Dywedodd un rhiant wrthym ei fod yn teimlo bod ymddygiad ei blentyn wedi gwella ers iddo fynychu'r grŵp a'i fod wedi gwneud ffrindiau yno.

Mae awyrgylch cadarnhaol, gofalgar yno ac mae'r plant yn derbyn cefnogaeth dda i reoli eu teimladau ac i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn gallu treulio amser ar weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, mwynhau eu hunain ac archwilio eu hamgylchedd. Treuliwyd y rhan fwyaf o'r sesiwn yn chwarae'n rhydd a gwelsom fod y plant yn dewis o amrediad o weithgareddau oedd wedi'u cynllunio a'u paratoi o amgylch eu hanghenion a'u diddordebau megis paentio, chwarae tywod a dŵr a chwarae rôl. Roedd rhywfaint o'r plant wedi'u hudo'n arbennig gan weithgaredd iâr fach yr haf/sidan god ac roeddent yn gwylio â rhyfeddod fel y cafodd yr iâr fach yr haf ei ryddhau yn yr awyr agored. Roedd y plant yn mwynhau ardal yr ardd yn fawr iawn, gan edrych am bryfed a phryfed lludw ac arogli'r perlysiau. Roedd eraill yn mwynhau 'paentio' gyda dŵr yn yr awyr agored neu chwarae gemau pêl neu â ffigurau dinosoriaid. Roeddent yn mwynhau canu a arweinir gan oedolion ac amseroedd cylch, gan ymuno gyda'r ystumiau yn ystod y caneuon. Roedd y rhieni y buom yn siarad â hwy yn teimlo bod eu plant yn mwynhau mynychu'r grŵp a bod llawer i'w wneud yno.

Mae'r plant yn ymgysylltu ac mae ganddynt ddiddordeb yn y gweithgareddau a ddarperir.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael profiad o amrediad o gyfleoedd i chwarae ac maent yn cael eu cefnogi'n dda gan y staff, sydd yn helpu i hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad cyfan. Roedd y gweithgareddau yn cael eu cynllunio o amgylch anghenion unigol y plant er mwyn hyrwyddo eu sgiliau a'u datblygiad. Roedd y staff yn cefnogi'r plant ac yn hyrwyddo eu chwarae a dysgu trwy sgyrsiau meddylgar, er enghraifft, clywsom staff yn esbonio i'r plant fod ieir bach yr haf yn fregus ac yn eiddil ac os fyddai gan y plant blodau yn eu gerddi byddai ieir bach yr haf yn dod atynt. Roedd y plant yn gallu cael mynediad hawdd at yr ystafelloedd ymolchi. Roedd y staff wrth law i gynnig cymorth ac esbonio pam yr oedd angen iddynt lanhau eu dwylo cyn iddynt gael eu byrbryd. Roedd yr adnoddau wedi cael eu gosod er mwyn i'r plant gael darganfod beth yr oeddent eisiau yn hawdd. Yn ystod amser byrbryd byddai'r staff yn gweini'r byrbrydau

i'r plant ac rydym wedi argymell y gallai plant dderbyn mwy o gyfleoedd i ymarfer eu sgiliau annibyniaeth amser byrbryd.  Gwelsom fod y plant yn hunangofrestru yn ystod amser cylch sy'n annog ymdeimlad o gyflawniad.

Mae'r plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu dysgu a'u hunaniaeth ac mae angen datblygu'r cyfleoedd hyn mewn i'r arfer byrbryd.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y staff gymwysterau a phrofiad da.  Arweinir y practis gan y plant ac mae llesiant y plant yn ganolbwynt i'w gofal.  Gweithredir polisïau a chynlluniau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer y plant i ddatblygu ffordd iach o fyw. Mae'r staff yn darparu gofal cynnes a sensitif ac mae ganddynt ddisgwyliadau ymarferol ar gyfer y plant.  Mae systemau ar waith sy'n sicrhau bod y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn lefelau da o gymorth a'u bod yn cael budd o gyngor arbenigol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Cedwir y plant yn ddiogel ac yn iach am fod diogelu yn cael blaenoriaeth uchel ac mae polisïau a chynlluniau yn cael eu gweithredu i hyrwyddo iechyd y plant. Roedd yr holl staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu ac roeddent yn hyderus am y gweithdrefnau amddiffyn plant oedd ar waith. Dangosodd y cofnodion y buom yn edrych arnynt fod y gweithdrefnau hyn wedi'u gweithredu a'u cofnodi'n dda.  Dywedwyd wrthym fod arferion ar gyfer newid cewynnau wedi'u diweddaru yn ddiweddar a'u bod yn cael eu dilyn yn briodol ac roedd y plant yn golchi eu dwylo ar amseroedd priodol. Roedd y grŵp wedi cyflawni gwobr Byrbrydau Iach Aur a gwelsom fod y plant yn derbyn amrywiaeth o ffrwythau a bwydydd arall er mwyn hyrwyddo eu hiechyd. Roedd y staff yn ymwybodol o alergeddau'r plant ac roeddent yn cael cymorth oddi wrth weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol.  Dangosodd ein trafodaethau â'r staff eu bod wedi cwblhau pob adran o'r Wobr Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy sy'n hyrwyddo iechyd plant mewn meysydd megis ymarfer corfforol, maeth ac iechyd meddwl.  Roedd y grŵp wedi gweithredu 'Cynllun Gwên' Llywodraeth Cymru sy'n annog plant i lanhau eu dannedd a gwelsom blant yn glanhau eu dannedd yn ystod y sesiwn.  Gwnaethom drafod â'r person â gofal yr angen i sicrhau bod yr holl blant yn golchi eu hwynebau yn dda ar ôl y gweithgaredd hwn. Roedd y staff yn deall y rheolau ynghylch rhoi meddyginiaeth yn ddiogel a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw. Gwelsom fod y staff yn cwblhau ffurflenni damweiniau/digwyddiadau a ffurflenni damweiniau sydd eisoes yn bodoli yn ôl yr angen ac yr oeddent yn sicrhau bod rhieni yn llofnodi ac yn deall y ffurflenni. Roedd y cofnodion damweiniau yn dangos bod, lle'r oedd angen, cymorth cyntaf priodol wedi cael ei weinyddu.  Roedd hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig yr holl staff yn gyfredol. Mae ymarferion tân gyda'r plant yn cael eu cwblhau bob tymor. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn y gwasanaeth.

Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac roeddent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod iechyd a llesiant y plant yn cael eu hyrwyddo.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn fedrus ac yn gyson yn eu hymagwedd tuag at reoli ymddygiad y plant ac mae eu strategaethau i reoli ymddygiad yn briodol ar gyfer yr oedran.  Dywedodd y

staff wrthym eu bod i gyd wedi mynychu hyfforddiant ar gyfer rheoli ymddygiad ac roeddent yn teimlo'n hyderus am reoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol. Roeddent yn gweithio gyda'r plant mewn modd sensitif, tawel ac amyneddgar, ac roeddent yn rhoi strategaethau priodol ar waith er mwyn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol. Gwelsom fod un plentyn yn derbyn gwobr 'Seren y dydd' *'am fod yn garedig i dy ffrindiau'.*Yn ystod amser cylch roedd y staff wedi annog y plant i *'Gael gwared a'ch sigladau er mwyn i ni gael eistedd yn dawel'* ac roedd y plant i gyd yn gallu eistedd yn dawel ar ôl hyn er mwyn canu caneuon. Gwelsom y staff yn canmol ac yn annog y plant. Gwnaethant esbonio eu bod wedi gofyn am gymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol ynghylch rhai mathau o ymddygiad, megis cnoi, ac roeddent yn gallu rheoli'r ymddygiadau hyn. Rhoddwyd lle i'r plant er mwyn iddynt allu gwneud pethau yn eu hamser eu hunain ac roeddent yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Roedd coeden ddathlu wedi'i datblygu er mwyn cofnodi cyflawniadau'r plant, er enghraifft *'roedd X wedi adnabod ei got ei hun'.*Roedd y staff yn adnabod personoliaethau unigol y plant ac roeddent yn ymwybodol o'r plant oedd angen cymorth ychwanegol er mwyn rheoli eu teimladau a delio â chysyniadau cymhleth megis cymryd tro a rhannu. Dywedodd y person â gofal wrthym ei bod yn gweithio'n agos gyda'r rhieni er mwyn sicrhau bod y strategaethau sy'n cael eu defnyddio i hyrwyddo ymddygiad eu plant yn gyson rhwng y grŵp a'r cartref.

Mae'r staff yn defnyddio'u gwybodaeth am y plant a'u dealltwriaeth o ddatblygiad plant i hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol rhwng y plant.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod, yn deall, ac yn diwallu anghenion unigol y plant. Mae'r staff wedi'u cymhwyso'n dda ac yn brofiadol ac maent yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i fonitro cynnydd y plant ac maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n helpu i hyrwyddo eu datblygiad. Mae gan yr holl blant ddyddiaduron sy'n olrhain sut y maent yn gwneud cynnydd, ac mae nodau yn cael eu nodi er mwyn eu helpu i gyrraedd eu camau nesaf. Mae athro ymgynghorol yn gwirio'r cynllunio a'r targedau i sicrhau bod anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu. Gwelsom fod y staff wedi cofnodi, er enghraifft, *"Mae X yn dechrau deall cysyniadau maint, rhwng mawr a bychan"* yn nyddiadur dysgu plentyn. Clywsom y staff yn annog plentyn i adeiladu tŵr gyda blociau mawr meddal gan ddweud *"Beth am i ni gyfrif i ddeg?"*Ar gyfer y plant sydd ag angen cymorth ychwanegol arnynt, mae cynlluniau chwarae unigol yn cael eu llunio er mwyn cynorthwyo meysydd dysgu penodol ac mae Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO) ar waith. Roedd yr iaith Gymraeg wedi'i chynnwys yn y sesiwn drwy ganeuon a Chymraeg achlysurol. Dywedodd y staff wrthym fod amrywiaeth o wyliau megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn cael eu dathlu er mwyn helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau a chrefyddau eraill a bod adnoddau ar gael i helpu'r plant gael gwerthfawrogi amrywiaeth. Roedd anghenion personol y

plant yn cael sylw yn brydlon gan eu gweithwyr allweddol ac roedd y plant yn derbyn cymorth ymatebol a sensitif. Mae'r grŵp yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill megis Ymwelwyr Iechyd a Lleferydd ac Iaith er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae gan y staff y cymwysterau a'r profiad gofynnol i hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn lân, lliwgar ac mae wedi'i gynnal a'i gadw i safon dda. Mae arddangosfeydd lliwgar wedi'u gosod trwy'r lleoliad sy'n cynrychioli testunau sy'n cael eu hastudio. Cymerir gofal i gynnal diogelwch er mwyn sicrhau llesiant y plant. Mae'r lleoliad yn elwa o ardal awyr agored fawr ac er bod llawer o adnoddau ynddi, byddai'n elwa o archwiliad o'r adnoddau a datblygiad pellach.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r tîm rheoli a'r staff wedi cymryd camau er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r eiddo yn ddiogel, roedd mynediad yn cael ei fonitro'n dda ac roedd cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw. Roedd ardaloedd awyr agored wedi eu hamgáu a'u goruchwylio gan staff pan oedd plant yn chwarae yno. Roedd asesiadau risg ysgrifenedig manwl ar waith ac roedd risgiau yn cael eu nodi, megis yr oedd angen sicrhau'r ffens yn agos i gefn yr ardd Eco. Roedd y staff wedi lleihau'r risg ond roeddent yn disgwyl arian ar gyfer hyn a gwnaethant esbonio nad oedd y plant yn cael mynediad i'r ardal hon heb oruchwyliaeth. Rydym wedi argymell bod hyn yn cael sylw. Roedd gwiriadau diogelwch dyddiol yn cael eu cynnal a gwelsom fod y staff yn gwirio'r ardal awyr agored cyn bod y plant yn cael mynd allan i chwarae. Roedd gweithdrefnau gadael mewn argyfwng yn cael eu hymarfer a dywedwyd wrthym fod y rhain yn digwydd bob tymor. Roedd cytundeb ar waith gyda'r ysgol o ran cynnal a chadw a glanhau a gwelsom fod yr ystafelloedd a ddefnyddir yn lân a'u bod wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod teganau ac offer yn cael eu glanhau yn rheolaidd. Roedd y Cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn fanwl ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd y cofnodion yn dangos bod y rhain yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn helpu i adnabod damweiniau ailadroddol ac felly'n arwain at gamau priodol amserol, gan gynnwys atgyfeirio plant unigol at y gwasanaethau iechyd am ofal penodol, os oes angen.

Mae gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y plant a'r staff yn yr amgylchedd.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r ardal chwarae dan do yn olau, wedi'i threfnu'n dda ac yn addas i'r plant gyda digon o le ar gyfer y plant i symud yn rhydd a chael mynediad hawdd i'r awyr agored. Roedd ardaloedd ar gyfer mathau gwahanol o chwarae wedi'u gosod allan er mwyn creu gofodau diddorol i'r plant. Roedd digon o le ar gyfer y plant i fwynhau gweithgareddau chwarae ar y llawr ac ar ben byrddau. Roedd yna gornel llyfrau â chlustogau lle'r oedd y plant yn gallu ymlacio a chymryd rhan mewn gweithgareddau amser cylch yn gyfforddus. Roedd gan y plant fynediad a reolir at ardal awyr agored

fawr oedd yn arwain i ffwrdd o'r ystafell chwarae. Roedd yr ystafelloedd ymolchi wedi'u lleoli'n briodol fel y gallai'r plant gael mynediad atynt yn annibynnol.  Mae'r grŵp yn adolygu'r amgylched yn rheolaidd gan ddefnyddio graddfa fesur gydnabyddedig ac maent yn gweithredu os bydd unrhyw faterion yn cael eu hadnabod.

Mae'r person â gofal yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i blant ac mae'n hyrwyddo chwarae'r plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Roedd gan y plant fynediad at adnoddau a chelfi sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Gwelsom amrediad da o deganau ac offer chwarae.  Roedd y rhain o ansawdd da,  yn lân ac roeddent wedi'u lleoli'n briodol yn yr ardaloedd chwarae cyfatebol, er, rydym wedi argymell archwiliad ar gyfer rhywfaint o'r adnoddau awyr agored gan y byddai rhai o'r rhain yn elwa o ddiweddariad.  Roedd gwiriadau dyddiol yn golygu y byddai unrhyw offer anniogel neu sydd wedi'i ddifrodi yn cael ei nodi a byddai'r camau priodol yn cael eu cymryd.  Mae systemau hefyd ar waith i sicrhau bod teganau dan do yn lân.   Roedd byrddau a chadeiriau o faint priodol i'r plant eistedd arnynt er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau pen bwrdd ac i fwyta'u byrbrydau. Mae amrediad o lyfrau ac adnoddau er mwyn helpu'r plant i ddysgu am wahanol ddiwylliannau a chrefyddau.

Mae gan y grŵp brosesau ar waith i sicrhau bod adnoddau ac offer o ansawdd da a'u bod yn diwallu anghenion y plant er bod yr ardal chwarae awyr agored yn edrych ychydig yn ddi-raen a byddai'n elwa o gael ei diweddaru.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Crynodeb**

Mae strwythur rheoli cadarn ar waith yn y lleoliad. Mae'r gwasanaeth wedi'i drefnu'n dda ac mae'n cael ei reoli i safon dda. Gwnaeth y person â gofal a'r staff gymryd rhan lawn yn y broses arolygu ac roeddent yn agored ac yn dryloyw trwy gydol y broses. Mae systemau ar waith i sicrhau datblygiad y gwasanaeth ac mae safbwynt y rhieni a'r plant yn cael eu croesawu. Gall rhieni fod yn glir ynghylch sut mae'r grŵp chwarae yn gweithredu ac maent yn gallu gweithio'n agos gyda'r staff fel eu bod yn cymryd rhan lawn yn natblygiad a gofal eu plant. Rydym wedi argymell y dylid adolygu canllawiau ar gyfer staff cyflenwi fel y gallant fod yn hyderus yn eu rôl.

**Ein canfyddiadau**

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda ac mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Mae strwythur rheoli clir ar waith sydd wedi'i nodi yng nghynllun gwaith y grŵp. Mae hwn, ynghyd â'r datganiad o ddiben, sy'n nodi amcanion y grŵp, yr offer a'r gwasanaethau sydd ar gael, yn galluogi'r rhieni i ddeall sut y gweithredir y gwasanaeth ac i wneud dewis gwybodus. Mae polisïau a gweithdrefnau addas yn cael eu gweithredu gan staff i sicrhau diogelwch y plant ac i hyrwyddo eu datblygiad. Roedd y person â gofal yn glir o'i rôl a theimlai ei bod yn cael ei chefnogi'n dda gan y swyddog Dechrau'n Deg a'r unigolion cyfrifol. Gwelsom fod staff yn glir o'u rolau ac roeddent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, a olygai bod y sesiwn wedi'i chynnal yn esmwyth ac yn ddigynnwrf. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda o ran cyfleoedd hyfforddi.

Mae'r tîm rheoli yn gweithredu systemau er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn gwasanaeth diogel gan staff sydd yn gryf eu cymhelliant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae systemau ar waith ar gyfer hunanwerthuso a gwella ansawdd. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio amrediad o gynlluniau sicrhau ansawdd, megis Gwobr Byrbryd Iach a Chynllun Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, i helpu i lywio ansawdd eu darpariaeth a nodi gwelliannau. Mae systemau ar waith ar gyfer hunanwerthuso ac i wella ansawdd, er enghraifft, gwelsom fod damweiniau a digwyddiadau'n cael eu hadolygu ar sail fisol ac roedd gan y cynllun gweithredol targedau penodol ar gyfer gwelliannau. Gwnaeth y person â gofal ein hysbysu fod y polisi newid cewyn wedi cael ei adolygu'n ddiweddar er mwy sicrhau bod plant yn aros yn gyfforddus a bod eu hanghenion mynd i'r toiled yn cael eu diwallu'n llawn. Mae adolygiad ansawdd gofal cynhwysfawr a manwl yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol a'i rhannu gyda rhieni. Mae safbwyntiau'r rhieni yn cael eu croesawu trwy, er enghraifft, blwch argymhellion ac adborth dyddiol ar lafar. Mae safbwyntiau'r plant yn cael eu casglu yn fwyaf trwy arsylwi ar yr hyn y maent yn hoffi a sut y maent yn ymateb i wahanol weithgareddau. Gwnaethom argymell fod systemau yn cael eu datblygu i

ddangos tystiolaeth o sut y mae safbwyntiau'r plant yn cael eu gweithredu wrth werthuso'r gwasanaeth a'r gweithgareddau.

Mae'r gwasanaeth yn derbyn cyngor o ffynonellau allanol, ynghyd â'u gwybodaeth am ymagweddau tuag at ofal plant a safbwyntiau rhieni, y staff a'r plant er mwyn gwerthuso'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwelliannau.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r person â gofal yn rheoli'r gwasanaeth yn dda ar sail o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau canlyniadau da ar gyfer y plant. Mae'r staff wedi'u cymhwyso'n dda ac maent yn brofiadol, ac roeddent yn gweithio'n dda fel tîm. Roedd y staff yn cymryd cyfrifoldeb am wahanol feysydd o fewn y gwasanaeth gan ddibynnu ar eu maes o arbenigedd a diddordeb. Roedd cyfrifoldebau'r staff a nodwyd yn cynnwys rolau ar gyfer gwarchod plant, iechyd a diogelwch a Chydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO). Roedd y staff yn glir am eu rolau ac roedd hyn yn sicrhau bod y sesiynau yn rhedeg yn esmwyth a bod anghenion y plant yn cael eu diwallu. Mae gweithdrefnau recriwtio yn gadarn fel bod yr holl wiriadau gofynnol i sicrhau addasrwydd staff yn cael eu cynnal. Roedd y ffeiliau staff a gedwir ar yr eiddo yn drefnus iawn. Mae proses werthuso flynyddol ar waith ynghyd â staff cynorthwyol. Dywedodd y staff y buom yn siarad â hwy eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod eu hanghenion hyfforddi yn cael eu diwallu trwy'r broses goruchwylio a gwerthuso. Roedd gweithdrefn sefydlu wedi cyflwyno staff newydd i weithdrefnau Dechrau'n Deg a chadwyd cofnodion o hyn. Roedd y staff yn mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwnaethom argymell bod y rhain yn cael eu cofnodi yn fwy cyson.

Gall rieni fod yn hyderus fod y staff ac adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau llesiant y plant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda rhieni, yr ysgol a gwasanaethau eraill fel rhan o dîm amlasiantaeth i gefnogi plant a'u teuluoedd sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg. Mae rhieni yn cael eu gwahodd i rannu gwybodaeth am eu plant cyn dechrau ac mae proses ymsefydlu yn rhoi amser i'r plentyn a'i deulu i ddod yn gyfarwydd â'r grŵp. Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei rannu ar lafar mewn modd cyfeillgar ac anffurfiol pan oedd plant yn cael eu casglu ac/neu yn dod â nhw. Mae nifer o systemau ar waith i helpu i gynnwys rhieni yng nghynnydd eu plant gan gynnwys cyfarfodydd gyda'r rhieni a sesiynau ymuno a chwarae. Roedd hysbysfwrdd ym mynedfa'r cyntedd yn arddangos gwybodaeth berthnasol a ffotograffau o'r staff gyda manylion o'u cymwysterau yn ogystal â chylchlythyron rheolaidd yn helpu i hysbysu’r rhieni. Roedd blwch awgrymiadau yn gwahodd adborth dienw. Gwnaeth y person â gofal esbonio sut mae'r grŵp yn gweithio'n agos gyda meithrinfa gyfagos i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n esmwyth i'r ysgol. Gwnaethom siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol a ddywedodd bod ganddynt gyfathrebiad gwych gyda'r staff a'r rheolwyr.

Mae'r feithrinfa'n gweithio'n effeithiol gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod llesiant y plant yn cael ei hyrwyddo.

## Gwelliannau y mae eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Sicrhau bod staff cyflenwi yn hyderus a'u bod yn deall eu rôl;
- archwilio adnoddau allanol;
- datblygu systemau i ddangos tystiolaeth o sut mae safbwyntiau'r plant yn cael eu gweithredu wrth werthuso'r gwasanaeth ac adnoddau ac ati;
- cofnodi cyfarfodydd staff a
- diogelu'r ffens yng nghefn yr ardd eco.

## 2. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd arolygiad llawn ddirybudd dros ddau ddiwrnod, a rhoddwyd adborth ar yr ail ymweliad. Treuliwyd tua deg awr yn y lleoliad. Cafodd y fethodoleg a gwybodaeth ganlynol eu hystyried:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGGCC;
- Arsylwi ar y trefniadau a’r arferion gofal;
- arolygiad gweledol o'r lleoliad, o dan do ac yn yr awyr agored;
- trafodaethau gyda'r staff a'r tîm rheoli;
- ystyriaeth o amrediad o bolisïau, gweithdrefnau a chofnodion a gedwir yn y feithrinfa ac
- adborth ar lafar gan ddau bâr o rieni oedd yn gadael eu plant gyda'r gwasanaeth.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 3. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Unigolyn Cyfrifol | Sarah Mutch<br>Helen Morris |
| Person â gofal | Emma Curtis |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 16 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng dwy a thair blwydd oed |
| Oriau agor | 9am i 11.30am<br>12.15pm i 2.45pm<br>Dydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith Weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Ionawr 2016 |
| Dyddiadau'r arolygiad hwn | 22 a 23 Mai 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r cynnig gweithredol o ran yr iaith Gymraeg. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |